



**CYFARWYDDWR CYFFREDINOL, OPERA CENEDLAETHOL
CYMRU**

Dogfen Frifio i Ymgeiswyr

WNO WELSH NATIONAL **OPERA** CENEDLAETHOL CYMRU

Diolch ichi am ddangos diddordeb mewn gweithio gyda ni.

Mae Opera Cenedlaethol Cymru yn un o gwmnïau opera mwyaf blaenllaw y byd, sy'n enwog am ei gynyrchiadau arloesol, mentrus a chlodfawr, a'i waith ieuenctid a chymunedol eang ei ddylanwad. Mae gan y Cwmni dîm o bobl rhyfeddol o dalentog ac ymroddgar, sy'n frwdfrydig tu hwnt ynghylch opera ac yn dod â pherfformiadau o'r radd flaenaf un i gynulleidfaeod yn y DU a thu hwnt. Mae gan WNO enw da ledled y byd am sicrhau'r ansawdd artistig gorau, gyda chyd-gynyrchiadau rhyngwladol rheolaidd a chomisiynau newydd arloesol. Mae ein Cerddorfa a Chorws amser llawn yn perfformio i safon arbennig, gwell nag erioed o bosib.

Fodd bynnag, er y cryfderau hyn a'r adolygiadau gwych a gawn yn rheolaidd am ein cynyrchiadau, fel yn achos llawer o gwmnïau opera o gwmpas y byd - mae'r niferoedd yn ein cynulleidfa'n gostwng. Mater arall sy'n peri'r un faint o bryder yw'r ffaith fod demograffeg ein cynulleidfa'n parhau i fod yn ystyfnig o sefydlog. O ganlyniad, byddwn yn troi at ein Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd i ddod o hyd i ffyrdd o gyffroi a thyfu cynulleidfaeod newydd, amrywiol drwy gynnig repertoire cytbwys o waith arloesol a thraddodiadol, a thrwy ddulliau gwahanol. Yn ogystal, bydd angen inni sicrhau amrywiaeth ehangach o ffynonellau incwm, gan ein bod yn dibynnu'n ormodol ar gyllid grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Celfyddydau Lloegr ar hyn o bryd. Mae gennym hefyd llawer o draddodiadau, arferion gwaith ac agweddau sydd wedi hen sefydlu ond sydd angen esblygu er mwyn i'r cwmni ffynnu.

Mae'r rôl rydym yn ei hysbysebu yn un o'r rhai mwyaf diddorol ym myd opera. Mae'n rhaid i'r person rydym yn chwilio amdano allu adeiladu ar ein cryfderau rhagorol, cynnig gweledigaeth gyffrous o'n dyfodol ac arwain y Cwmni drwy newid sylweddol er mwyn ei chyflawni.

Bydd y rôl yn gweddu i unigolyn uchelgeisiol a thalentog sydd â phroffil proffesiynol cadarn, rhwydweithiau yn y diwydiant cerddoriaeth glasurol, gwybodaeth am opera a chariad tuag at opera. Bydd yn chwaraewr a datblygwr tîm rhagorol ac yn meddu ar sgiliau cyfathrebu ardderchog a phrofiad o arwain sefydliadau mawr a rheoli cyllidebau yn llwyddiannus. Mae brwdfrydedd ynglŷn ag arwain a gallu ysbrydoli, ennyn diddordeb ac ysgogi yn hanfodol, yn ogystal ag urddas ac uniondeb personol cryf. Bydd ymwybyddiaeth dda o'n heriau strategol, a syniadau pendant am ffyrdd o fynd i'r afael â nhw, yn bethau sy'n ysgogi ac yn cyffroi'r ymgeisydd llwyddiannus. Yn sicr, ni fydd y person hwn yn ofn cwestiynu arferion presennol a gwneud penderfyniadau anodd.

I grynhoi, bydd gennych y weledigaeth i ddatblygu WNO i fod yn gwmni opera ar gyfer yr 21ain ganrif, sy'n arwain y ffordd wrth ddatblygu opera fel celfyddyd sy'n esblygu, a'r gallu i sicrhau bod pawb yn ymuno â chi ar y daith. Bydd yn gyffrous tu hwnt!

Edrychwn ymlaen yn arw at gael eich cais.



Mark Molyneux, Cadeirydd, Bwrdd Cyfarwyddwyr WNO



Cynhyrchiad WNO o *Pelléas et Mélisande* gan Debussy yn 2015

Mae Opera Cenedlaethol Cymru yn un o gwmnïau opera mwyaf blaenllaw y byd, sydd ag enw da yn fyd-eang am ansawdd ac arloesedd ei gynyrchiadau. Sefydlwyd y Cwmni yng Nghaerdydd ym 1943 ac mae ganddo gysylltiadau cryf â'i wreiddiau lleol o hyd. Ar yr un pryd, mae ei enw da yn rhyngwladol yn ei wneud yn un o frandiau rhyngwladol cryfaf Cymru a'r DU.

Mae WNO yn cyflogi dros 200 o bobl, mae ganddo drosiant o £17 miliwn ac, ar gyfartaledd, bydd yn cynnal 75 o berfformiadau o chwech neu saith o brif gynyrchiadau sy'n gymysgedd o waith newydd a gwaith wedi'i adfywio bob blwyddyn. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o'n gweithiau newydd wedi bod yn gynyrchiadau ar y cyd â thai opera eraill. Ein cartref yw Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd, sef lleoliad cenedlaethol ar gyfer y celfyddydau perfformio a agorodd yn 2004, sy'n cynnwys rhai o'r cyfleusterau ymarfer a pherfformio gorau yn y byd.

Ers 2011, mae'r Cwmni wedi mwynhau arweinyddiaeth artistig gyffrous David Pountney fel Cyfarwyddwr Artistig, ac ymunodd Tomáš Hanus â'r Cwmni fel Cyfarwyddwr Cerddoriaeth yn 2016.



Cynhyrchiad WNO o *La forza del destino* gan Verdi yn 2018

Mae WNO yn unigryw, gan mai dyma'r unig brif gwmni opera sy'n cael ei ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Celfyddydau Lloegr. Mae teithio ym môr esgyrn y Cwmni; byddwn yn ymarfer ac yn agor Tymhorau ein prif waith yng Nghaerdydd ac yna'n teithio i Birmingham, Bryste, Lerpwl, Llandudno, Milton Keynes, Rhydychen, Plymouth a Southampton. O Haf 2018 ymlaen, bydd y Cwmni'n cynnal taith ychwanegol ar raddfa lai bob blwyddyn, a fydd yn ein galluogi i gyrraedd cynulleidfaoedd gwahanol mewn detholiad ehangach o leoliadau. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae WNO hefyd wedi perfformio'n flynyddol yn y Royal Opera House; wedi teithio i Oman, y Ffindir a Dubai; a bydd yn ymweld â Gŵyl Gelfyddydau Hong Kong yn 2018.

Mae WNO yn gwmni eang ei gorwelion, sy'n ymestyn i'r gymuned opera ryngwladol yn ogystal â'r gymuned artistig ehangach. I ategu ein prif berfformiadau operatig, mae cronfa gyfoethog o weithgareddau artistig eraill yn gwneud defnydd llawn o ensemble nerthol WNO o ddoniau creadigol ac yn cyrraedd grwpiau mwy amrywiol o bobl. Mae'r rhaglen artistig ehangach hon yn cynnwys opera graddfa lai; rhaglen gyngherddau sylweddol; celf ddigidol; a gwaith ieuenctid, cymunedol ac ymgysylltu.



Cynhyrchiad WNO o *From the House of the Dead* gan Janáček yn 2017

Mae ein Hadran Ieuentid a Chymuned Iwyddiannus yn ceisio denu cyfranogwyr a chynulleidfaoedd y tu hwnt i brif waith y Cwmni – WNO oedd un o'r cwmnïau opera cyntaf yn y DU i sefydlu adran o'r fath. Bydd yr adran yn llunio prosiectau sy'n gwneud y cwmni'n fwy hygyrch i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd, yn enwedig rhai mewn cymunedau lle mae diffyg darpariaeth gelfyddydol neu lle mae mynediad at leoliadau perfformio yn anodd. Mae prosiectau Ieuentid a Chymuned WNO yn meithrin perthynas ag ystod amrywiol o bobl mewn ysgolion, colegau, clybiau ieuentid a lleoliadau cymunedol; yn ogystal ag aelodau o gynulleidfaoedd mewn amrywiaeth eang o leoliadau.



CânSing gydag ysgolion yn y Barri, De Cymru



Cyngerdd i'r Teulu WNO 2016



Sioe Arddangos Opera Ieuentid WNO 2017
Kommilitonen! 2016



Cynhyrchiad Opera Ieuentid WNO o

Mae'r adran yn adnabyddus am elfen Opera Ieuentid glodfawr WNO, ac mae hefyd yn denu sylw o ganlyniad i raglen ddigidol arloesol y Cwmni. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cwmni wedi adeiladu ar ei waith Ieuentid a chymuned yng Nghymru ac wedi cynyddu ei bresenoldeb yn sylweddol yn Lloegr. Cyflawnwyd y gwaith hwn mewn partneriaeth â'r prif leoliadau y byddwn yn perfformio ynddynt.

Mae gweithdy golygfeydd WNO, sef Cardiff Theatrical Services, yn cael ei redeg fel is-gwmni masnachol ac mae'n gwneud setiau ar gyfer rhai o'r enwau mwyaf ym myd opera a theatr yn y DU a thu hwnt, gan gynnwys y Royal Opera House, National Theatre, Glyndebourne, Cameron Mackintosh a Chicago Lyric Opera.

Mae ein maint yn gwneud WNO yn gwmni perfformio gwych ac hefyd yn ased pwysig iawn yn strwythur addysg gerddorol. Rydym yn ymwybodol iawn o'n rôl a'n pwrpas yng Nghymru a Lloegr, a byddwn yn ceisio datblygu a meithrin doniau ifanc a gweithredu fel llysgennad pwerus dros opera fel celfyddyd ar gyfer yr 21ain ganrif. Ein Noddwr yw EUB y Tywysog Charles. Bydd yn mynychu digwyddiadau'r Cwmni yn rheolaidd, ar ymweliadau swyddogol a phreifat.

Mae'r Cwmni mewn sefyllfa ariannol gadarn, gyda lefel iach o gronfeydd wrth gefn ac incwm sylweddol o ffynonellau codi arian gan Ymddiriedolaethau, Sefydliadau ac unigolion hael, yn ychwanegol at y grantiau blynyddol gan y Cynghorau Celfyddydau. Rhagwelir y bydd lefelau gwerthiannau tocynnau'n cynyddu yn ystod cyfnod ei gynllun busnes cyfredol, sef cyfnod o bum mlynedd.

Llywodraethiant a Strwythur WNO

Mae Opera Cenedlaethol Cymru yn elusen gofrestredig, gydag Ymddiriedolwyr sydd hefyd yn gweithredu fel Cyfarwyddwyr. Ar hyn o bryd mae gan y Bwrdd naw aelod, sy'n cael eu harwain gan y Cadeirydd Mark Molyneux a ymunodd â'r Bwrdd yn ystod haf 2016. Yr Ymddiriedolwyr yw:

Mark Molyneux (Cadeirydd)
Daniel Evans
Tony Hales CBE
Fflur Jones
Menna Richards OBE
Elen ap Robert
Will Wyatt CBE
Martyn Ryan
Toks Dada

Mae'r Bwrdd yn y broses o chwilio am Ymddiriedolwyr newydd a fydd yn dod ag ystod ehangach o arbenigedd ac amrywiaeth i'w aelodaeth.

Yn atebol i'r Cadeirydd y mae'r Cyfarwyddwr Artistig, David Pountney, a'r Rheolwr

Gyfarwyddwr, Leonora Thomson, yn eu rolau fel cyd-arweinyddion. Mae'r ddwy swydd hon yn cael eu cefnogi gan Uwch Dîm Rheoli.

Gan fod contract David Pountney yn dod i ben ym mis Medi 2019, wedi 8 mlynedd gyda'r Cwmni, mae'r Bwrdd yn cychwyn y broses o chwilio am ei olynydd.

Ar ôl ystyried ac ymgynghori'n ofalus, mae'r Bwrdd wedi dod i'r casgliad y dylai WNO yn y dyfodol ddychwelyd at fodel un arweinydd, gyda Chyfarwyddwr Cyffredinol yn atebol yn uniongyrchol i'r Cadeirydd a'r Bwrdd. Bydd y Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd yn gweithio gyda'r Bwrdd i benderfynu ar y strwythur rheoli mwyaf priodol i gefnogi ei sgiliau er budd pennaf y Cwmni.

Y RÔL

Prif dasg y Cyfarwyddwr Cyffredinol yw galluogi WNO i fynd i'r afael â'i heriau ac arwain y Cwmni i gyfnod newydd o dwf a llwyddiant, a hynny drwy weledigaeth ragorol, syniadau mentrus ac arweinyddiaeth ysbrydoledig.

Bydd y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn darparu arweinyddiaeth gyffredinol i'r Cwmni gyda chefnogaeth y Rheolwr Gyfarwyddwr, y Cyfarwyddwr Cerddoriaeth a'r Uwch Dîm Rheoli, gan osod gweledigaeth artistig a chyfeiriad strategol (a gytunir gan y Bwrdd) ar gyfer holl ystod gwaith WNO. Yn ogystal, wrth asesu gweithgareddau niferus y Cwmni, bydd yn sicrhau cydbwysedd doeth rhwng arloesedd a thraddodiad.

Bydd y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cydweithio â'r Cyfarwyddwr Cerddoriaeth i greu rhaglen artistig gyffredinol y Cwmni, a bydd yn cael ei gefnogi gan y Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Uwch Dîm Rheoli i'w gyflawni.

Mae pwysigrwydd symud y gelfyddyd yn ei blaen, cadw ymddiriedaeth a chefnogaeth cynulleidfaoedd craidd a cheisio denu cynulleidfaoedd newydd a mwy amrywiol ar yr un pryd, a pharhau i adeiladu ar broffil cenedlaethol a rhyngwladol WNO yn bethau y bydd angen i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol roi ystyriaeth ofalus iddynt wrth ddewis repertoire a thimau creadigol.

Bydd y rôl yn cynnwys goruchwyllo tîm a fydd yn mynd ati i weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid yng Nghymru a Lloegr i gryfhau'r ymgysylltiad rhwng WNO a chynulleidfaoedd presennol a phosib yn y dinasoedd yn Lloegr y bydd y Cwmni yn ymweld â nhw bob blwyddyn, yn ogystal â chymunedau anodd eu cyrraedd yng Nghymru.

Bydd y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn gweithredu fel y prif lefarydd ar ran y Cwmni, gan gyfleu diben a gwerthoedd y Cwmni yn fewnol i'r staff ac yn allanol i randdeiliaid ac yn fwy cyffredinol.

Bydd y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn atebol i'r Bwrdd, a bydd ganddo/ganddi berthynas waith agos â'r Rheolwr Gyfarwyddwr, y Cyfarwyddwr Cerddoriaeth a'r Uwch Dîm Rheoli wrth iddynt ddatblygu strategaeth gyffredinol y Cwmni a sicrhau rhagoriaeth artistig, sefydlogrwydd ariannol a hyfywedd tymor hir.

Prif Gyfrifoldebau

Arweinyddiaeth

- Arwain, darparu gweledigaeth artistig, rheoli newid ac ysgogi Opera Cenedlaethol Cymru a'i staff yn rhagorol, gan greu amgylchedd gweithio cadarnhaol a diogel

sy'n meithrin diwylliant o berfformiad cryf, yn cyflawni amcanion uchelgeisiol ac yn sicrhau ffyniant artistig, sefydlogrwydd ariannol a chyfle cyfartal ym mhob agwedd ar y gwaith.

- Cydweithio'n agos â'r Bwrdd Ymddiriedolwyr, y Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Uwch Dîm Rheoli i ddatblygu a gweithredu cynlluniau busnes strategol sy'n cyflawni amcanion artistig ac ariannol byrdymor a hirdymor y Cwmni.
- Datblygu cysylltiadau ardderchog gyda phrif randdeiliaid, partneriaid diwylliannol a busnes, noddwyr a rhoddwyr y Cwmni.
- Hyrwyddo Opera Cenedlaethol Cymru fel cwmni cenedlaethol a llysgennad diwylliannol pwysig ar ran Cymru.

Artistig

- Darparu gweledigaeth ysbrydoledig a chyfannol ar gyfer WNO, sy'n dangos ffyrdd creadigol o sicrhau bod y Cwmni'n cyrraedd cynulleidfaoedd newydd ac amrywiol, ac yn herio a newid arferion presennol lle bo angen.
- Creu strategaeth artistig ar gyfer pob agwedd ar weithgareddau WNO, gan gydbwysu gofynion cystadleuol am adnoddau.
- Cydweithio'n agos â'r Cyfarwyddwr Cerddoriaeth ac aelodau perthnasol o'r Uwch Dîm Rheoli i gynllunio a darparu rhaglen gyffrous ac amrywiol o operâu, cyngherddau a digwyddiadau eraill o fewn cyllidebau penodedig; gan sicrhau ei bod yn cynnig cydbwysedd rhwng arloesedd a thraddodiad, yn datblygu cynulleidfaoedd ac yn cyfrannu at fentrau ieuenctid a chymuned a digidol.
- Ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Cerddoriaeth a'r Cyfarwyddwr Gweinyddu Artistig, pennu a chytuno ar y repertoire, y timau creadigol, y cyd-gynhyrchwyr a'r partneriaid comisiynu a fydd yn dod â chydabyddiaeth a phroffil i'r Cwmni ac yn adeiladu ar enw da WNO am arwain y ffordd wrth ddatblygu'r gelfyddyd.
- Arwain y gwaith o ddatblygu cysylltiadau â chwmnïau opera a sefydliadau celfyddydau eraill yn y DU a ledled y byd er mwyn cydweithio ar gynyrchiadau, comisiynau a mentrau rhyngwladol eraill, gan sicrhau bod cyfraniad ariannol WNO yn fuddsoddiad effeithlon a buddiol.
- Sicrhau rhagoriaeth artistig gan bob un o gynyrchiadau WNO, o safbwynt cerddorol, theatrig, a thechnegol.
- Cefnogi a hyrwyddo datblygiad gwaith ieuenctid a Chymuned WNO, gan sicrhau ei fod yn rhan greiddiol o weithgareddau operatig y Cwmni a'i fod wrth galon y sefydliad.
- Ar y cyd â'r Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Uwch Dîm Rheoli, datblygu partneriaid lleoliadau teithio'r Cwmni, gan fynd ati i chwilio am ffyrdd o ehangu cynulleidfaoedd i waith WNO yng Nghymru a Lloegr drwy raglennu a phrosiectau estyn allan priodol.

Gweinyddu

- Arwain y gwaith o ddatblygu cynlluniau busnes a strategol cynaliadwy, a chydweithio â'r Rheolwr Gyfarwyddwr i'w cyflawni, gyda mewnbwn gan aelodau'r Uwch Dîm Rheoli yn eu meysydd perthnasol, gan sicrhau bod

amcanion artistig, gweithredol ac ariannol yn cael eu hymgorffori.

- Goruchwylio'r Rheolwr Gyfarwyddwr, y Cyfarwyddwr Cyllid ac aelodau eraill o'r Uwch Dîm Rheoli, i sicrhau cyllidebu, rheoli costau a rheolaeth ariannol effeithiol mewn perthynas â holl allbwn y Cwmni.
- Ar y cyd ag aelodau perthnasol o'r Uwch Dîm Rheoli, a chyda chefnogaeth y Rheolwr Gyfarwyddwr, ymelwa cymaint â phosib yn fasnachol ar asedau'r Cwmni, datblygu gweithgareddau sy'n cynhyrchu incwm a chreu cyfleoedd i allbwn y cwmni gael ei recordio, ei ddarlledu a'i rannu ar-lein yn y DU a thramor.
- Ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Ymgysylltu a Phartneriaethau, sicrhau bod gwaith ieuencid a chymuned WNO yn parhau i ddatblygu o ran y bobl y mae'n eu cyrraedd a'i broffil.
- Cefnogi'r Cyfarwyddwr Datblygu, Cyfathrebu a Strategaeth gyda gwaith codi arian a rheoli cysylltiadau â rhoddwyr allweddol; gan fanteisio ar gyfleoedd i sicrhau cysylltiadau ariannu cyhoeddus a phreifat pwysig, a datblygu cysylltiadau da gyda noddwyr a rhoddwyr presennol a phosib.
- Cydweithio â'r Cyfarwyddwr Marchnata a Gwerthu i gyflawni a marchnata rhaglen pob Tymor ac, yn benodol, ar fentrau datblygu cynulleidfaoedd drwy berfformiadau byw a chyfryngau digidol.
- Annog eraill i archwilio ac ymgorffori technoleg newydd er budd y Cwmni.
- Cydweithio â'r Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Uwch Dîm Rheoli ar gysylltiadau diwydiannol y Cwmni ac, yn benodol, ar oblygiadau cynigion a phenderfyniadau artistig.

Cysylltiadau Strategol a Chynrychiolaeth

- Arwain y sefydliad yn y gwaith o feithrin a chynnal cysylltiadau cydweithredol gyda Chanolfan Mileniwm Cymru a sefydliadau perthnasol eraill yng Nghymru, gan sicrhau bod gan y Cwmni agwedd weithgar, agored a chydweithredol tuag at y sector celfyddydau yng Nghymru a thu hwnt.
- Adeiladu ar y cysylltiadau cryf a chynhyrchiol sydd gan y Cwmni gyda'i leoliadau teithio presennol yng Nghymru a Lloegr; a lle bo'n briodol ac yn strategol, ceisio datblygu cyfleoedd a lleoliadau teithio newydd.
- Datblygu cysylltiadau cynhyrchiol gyda'r tai opera eraill, cwmnïau opera, sefydliadau ac unigolion yn y DU a thu hwnt sy'n gallu helpu i gyflawni nodau WNO.
- Datblygu cysylltiadau da gyda'r wasg a chyfryngau eraill, gan weithredu fel llfarydd ar ran y Cwmni.
- Mynychu cyfarfodydd Bwrdd a darparu adroddiadau ar eu cyfer, gan sicrhau bod yr aelodau'n cael yr holl wybodaeth am yr holl fusnes sy'n ymwneud â WNO, a chynghori ar bolisi.
- Manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo a datblygu enw da y Cwmni ymhellach; cynrychioli WNO mewn cyfarfodydd, cynadleddau, fforymau a digwyddiadau eraill cenedlaethol a rhyngwladol yn ôl y gofyn.

Proffil yr Ymgeisydd

Bydd yr ymgeisydd delfrydol yn arweinydd profiadol sydd â'r gallu i ysbrydoli a hanes o ddarparu allbwn artistig llwyddiannus, o'r radd flaenaf, o fewn sefydliadau pwysig ym maes celfyddydau perfformio, darlledu, recordio neu gelfyddydau eraill. Mae tystiolaeth o brofiad o arwain yn llwyddiannus drwy newid mawr yn bwysig.

Bydd ganddo/ganddi wybodaeth dda o opera, y repertoire a'r artistiaid, a bydd yn ymwybodol o dueddiadau a datblygiadau cyfredol yn rhyngwladol, gan gynnwys gwahanol draddodiadau diwylliannol, arddulliau cerddorol, ffurfiau theatraidd, datblygiadau digidol, ffilm, comisiynu aml-gelfyddyd, etc. Bydd y gallu i weithredu fel cynrychiolydd a llefarydd dros ddatblygu opera fel celfyddyd ar gyfer yr 21ain ganrif ac i ennyn diddordeb ac ysbrydoli partneriaid allanol, noddwyr a rhoddwyr, cyllidwyr cyhoeddus, arweinwyr gwleidyddol a'r cyhoedd yn gyffredinol, yn hanfodol.

Rydym yn chwilio am y profiad, sgiliau a rhinweddau personol canlynol:

Profiad

- Tystiolaeth o brofiad o ddarparu arweinyddiaeth llwyddiannus ac ysbrydoledig ar lefel uchel; ynghyd â'r wybodaeth broffesiynol, y profiad a'r parch o fewn y diwydiant i allu cynnal enw da WNO ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.
- Tystiolaeth o lwyddiant wrth arwain drwy, a darparu, newid sefydliadol ebrwydd.
- Tystiolaeth o lwyddiant wrth osod a chyflawni strategaeth.
- Tystiolaeth o reoli ac arolygu cyllidebau ac adnoddau mewn sefyllfa ariannol heriol.
- Hanes da o gydweithio, gyda phrofiad o gychwyn a rheoli partneriaethau creadigol, cyd-gynrychiadau a chomisiynau gydag amrywiaeth o sefydliadau.
- Profiad o feithrin perthynas ag ystod eang ac amrywiol o randdeiliaid mewnol ac allanol.

Sgiliau

- Sgiliau arwain rhagorol, a dull arwain a fydd yn ennyn ymddiriedaeth ac ymroddiad eraill.
- Y gallu i greu gweledigaeth gyffrous ar gyfer dyfodol y Cwmni ac i arwain pawb sy'n gysylltiedig â'r sefydliad yn y cyfeiriad hwnnw.
- Dawn creadigol ac entrepreneuraidd i allu llunio a gweithredu rhaglenni artistig arbennig sy'n defnyddio'r doniau gorau o fewn y Cwmni, yn denu'r timau creadigol gorau o bob cwr o'r byd i ddod i Gaerdydd, ac yn cyffroi ac yn ehangu cynulleidfaoedd.
- Y gallu i arloesi, gan adeiladu ar draddodiad WNO o ddarparu cynrychiadau mentrus, a sicrhau bod y Cwmni'n parhau i chwarae rhan flaenllaw wrth

ddatblygu opera.

- Parodrwydd i feddwl y tu hwnt i rôl gonfensiynol cwmni opera, drwy wneud defnydd llawn o adnoddau'r Cwmni, gan gynnwys y Corws, y Gerddorfa, y Gwasanaethau Technegol a gwaith ieuenctid a Chymuned.
- Y gallu i gadw golwg ar nifer o gynyrchiadau a phrosiectau ar gyfer sawl blwyddyn o gynllunio ymlaen.
- Craffter ariannol digonol i gymryd cyfrifoldeb, ar y cyd a swyddogion gweithredol eraill, am iechyd ariannol y sefydliad.
- Dealltwriaeth a doethineb masnachol i allu pwysu a mesur risgiau a chael y cydbwysedd cywir rhwng cymryd risgiau creadigol angenrheidiol a chynnal sefyllfa ariannol gadarn.
- Sgiliau cyfathrebu, negodi a dylanwadu rhagorol.
- Y gallu i weithredu fel llefarydd ar ran WNO, gan gyffroi ac ennyn diddordeb rhanddeiliaid, cynulleidfaoedd a'r cyfryngau gydag uchelgais creadigol y Cwmni a'i rôl fel cwmni opera cenedlaethol Cymru ac ased amhrisiadwy yn y DU ac yn rhyngwladol.

Gwybodaeth

- Gwybodaeth gadarn o opera a'r repertoire.
- Dealltwriaeth o farchnata, codi arian, gwaith ieuenctid a chymuned, a phob agwedd sy'n ymwneud â darparu tymor opera.
- Parodrwydd i groesawu a hyrwyddo technoleg newydd a thueddiadau digidol, gan ddangos dealltwriaeth o'u pwysigrwydd wrth ddatblygu gweithgareddau WNO yn y dyfodol.
- Rwydwaith ryngwladol helaeth yn y diwydiant cerddoriaeth a pharodrwydd i deithio er mwyn parhau i feithrin y cysylltiadau a'r partneriaethau hynny.

Rhinweddau Personol

- Cadernid wrth wneud penderfyniadau a dull gweithredol
- Gallu diplomyddol, gyda sgiliau rhyngpersonol ardderchog
- Gwydnwch
- Ymroddiad i ragoriaeth
- Ymrwymiad i egwyddorion amrywiaeth a chynhwysiant, a'r ffordd y maent yn cael eu gweithredu a'u hymgorffori yn ymarferol mewn amgylchedd gwaith
- Brwdfrydedd ynghylch opera ac ehangu cynulleidfaoedd opera
- Uchelgeisiol ynglŷn â'r hyn y gall WNO ei gyflawni

Crynodeb o'r Telerau ac Amodau

Contract	Parhaol; penagored
Cyfnod rhybudd	Rhybudd ysgrifenedig o chwe mis gan y naill ochr a'r llall
Cyfnod prawf	Chwe mis, gyda mis o rybudd
Cyflog	Yn gymesur â swydd o'r pwysigrwydd hwn
Pensiwn	Mae cynllun pensiwn cyfrannol yn weithredol
Gwyliau	25 diwrnod a gwyliau statudol
Adleoli	Bydd pecyn adleoli ar gael

Sut i Wneud Cais

I wneud cais, anfonwch CV a llythyr cais (dim mwy na thair ochr A4) yn dweud pam rydych chi'n credu eich bod yn addas ar gyfer y swydd at Heather Newill, Cyfarwyddwr, AEM International Ltd, naill ai'n electronig i hnewill@aeminternational.co.uk (sef yr opsiwn rydym yn ei ffafrio) neu drwy'r post i 10 Church Street, Framlingham, Suffolk IP13 9BH

Mae'n rhaid i'r ceisiadau gyrraedd erbyn dydd Mercher, 28 Mawrth 2018



